**Grŵp Penderfyniadau Cynllunio Morol (MPDMG)**

**16 Hydref 2018**

**Yn bresennol**

Phil Coates, Pat Cowdy a Rebecca Rees (Llywodraeth Cymru), Nathan Slater (Cyngor Bro Morgannwg), Lisa Phillips (Cyfoeth Naturiol Cymru), Judith Oakley (Cyngor Abertawe), Nick Barcock (Dŵr Cymru), Martin Thomas (THLS), John Williams (Cyngor Ynys Môn), Lindsay Christian (Cyngor Casnewydd), Alan Groves (Llywodraeth Cymru - cynllunio), Teresa Davies (Llywodraeth Cymru – Cynllunio), Sarah Jenkins (Cyngor Abertawe), Neville Rookes (CLlLC), Simon Hampshire a Samuel Gilchrist (Swyddfa Hydrograffig y DU), Sarah Clarke (Awdurdod Pysgodfeydd y Glannau a Chadwraeth Dyfnaint ac Aber Afon Hafren), Laura Nokes (Y Weinyddiaeth Amddiffyn), Inger Söderström a Nicola Abrams (OPRED), Chris McMullon (Natural England), Deanna Groom (Comisiwn Brenhinol Henebion Cymru), Shelley Vince (Cyfoeth Naturiol Cymru), Ken Cook (Llywodraeth Cymru – WEFO), Wayne Hope (Cyngor Sir Ddinbych), Mike Simmons (Cyngor Penfro), Michael Gubbins (Canolfan Gwyddorau'r Amgylchedd, Pysgodfeydd a Dyframaethu), Eunice Pinn (Seafish), Michel Regelous (Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro), Mel Nicholls a Clare Kavanagh (MMO), Helen Croxson (Asiantaeth y Môr a Gwylwyr y Glannau)

1. Yn dilyn y gweminarau cychwynnol ym mis Awst, dyma'r cyfarfod cyntaf o'r MPDMG wyneb yn wyneb. Croesawodd Llywodraeth Cymru bawb oedd yn bresennol gan roi'r newyddion diweddaraf ar y datblygiadau i weithredu'r Cynllun Morol Cenedlaethol cyntaf. Gan bod cynllunio morol yn gysyniad newydd byddwn yn datblygu ein dealltwriaeth yn yr un modd ag ar gyfer cynllunio tir. Nid oedd gan Lywodraeth Cymru yr atebion i gyd a bwriad y grŵp hwn oedd bod yn fforwm i weithio drwy'r cwestiynau a mynd i'r afael â'r ystyriaethau oedd yn codi.

2. Unwaith y bydd Cynllun Morol Cenedlaethol Cymru wedi'i fabwysiadu bydd yn rhaid i benderfyniadau gan awdurdodau cyhoeddus o dan Ddeddf y Môr a Mynediad i'r Arfordir ei ystyried mewn dwy ffordd;

   - **S.58(1) – Mae'n rhaid cymeryd penderfyniadau awdurdodi neu orfodi *"yn unol â"*** "os nad yw ystyriaethau perthnasol yn nodi fel arall";

   - **S.58(2) –** Mae'n rhaid i'r awdurdod cyhoeddus '**ystyried' dogfennau y polisi morol** wrth wneud unrhyw benderfyniad sy'n gysylltiedig ag ***ymarfer y swyddogaethau allai gael effaith ar ardal forol y DU yn gyfan neu'n rhannol.***

3. Gallai y mathau o benderfyniadau perthnasol y gallai yr awdurdodau hyn eu gwneud gynnwys; mesurau rheoli, cydsynio a chaniatâu, llunio polisïau, dynodi cadwraethau natur, rheoli pysgodfeydd, rheoli strategol a phenderfyniadau cyllido adnoddau morol.

4. Byddai Llywodraeth Cymru yn datblygu astudiaethau achos fyddai yn rhoi enghreifftiau ymarferol o'r hyn fyddai gweithredu Cynllun Morol Cenedlaethol Cymru yn ei olygu i'r

rhai sy’n llunio penderfyniadau a’r datblygwyr.  Byddai gweithgor yn cael ei sefydlu i helpu i ddatblygu’r rhain a byddai cyfarfod nesaf yr MPDMG yn edrych ar hyn yn fanylach.

Dyddiad y cyfarfod nesaf fydd 6 Chwefror 2019.

Cwestiynau at: Rebecca.Rees2@llyw.cymru